Cyngor Tref Caerfyrddin
Carmarthen Town Council

PRESS RELEASE – DATGANIAD I'R WASG

LLADRAD YN SIOP DE PARC CAERFYRDDIN

Mae lladrad wedi cymryd lle yn Siop De ym Mharc Caerfyrddin tua 8.30 p.m. nos Fawrth 3ydd o Fawrth. Gwelir bod y lleidr, sydd wedi'i ddal ar system teledu cylch cyfyng y Parc (gweler y delweddau isod), wedi mynd fewn i'r Parc, a oedd dan glo, dros y ffens gyhoeddus yn Lôn Morfa ac yna gwthio'u ffordd i mewn i'r Siop De drwy fynedfa ochr.

Unwaith aeth y tu fewn i'r adeilad wnaeth y lleidr mynd ag arian, gliniadur Lenova, ffôn symudol Nokia a nifer o eitemau o ddiodydd a melysion o'r siop.

Dywedodd Maer Caerfyrddin, y Cynghorydd Jeff Thomas 'mae'n siomedig a hynod rwystredig bod unigolyn wedi gweld yn dda i dorri fewn a dwyn eitemau sydd, mewn gwirionedd, yn eiddo i'r gymuned leol. Rwyf yn sicr bod pobl Caerfyrddin yr un mor bryderus i glywed am hyn ac yn eiddgar i'n darparu gydag unrhyw wybodaeth a all helpu i ddal y lleidr. Cafodd maint sylweddol o felysion a siocledi eu dwyn, ac yna fe fydd rhywun siŵr a gwybod am hyn a phwy all fod yn gyfrifol.

Mae'r materion hyn wedi cael eu hadrodd i'r heddlu lleol, ac os gan unrhyw un wybodaeth a all helpu gyda'r ymchwiliad yma, yna gofynnir i chi gysylltu gyda Heddlu Caerfyrddin ar 101, neu unrhyw aelod o staff Siop De Caerfyrddin drwy ffonio 01267 235199 - neu drwy unrhyw un o safleoedd cyfryngau cymdeithasol Cyngor y Dref.



Alun J Harries
Clerc, Cyngor Tref Caerfyrddin – Clerk, Carmarthen Town Council
01267 235199

5ed o Fawrth 2020